**EITEM AR YR AGENDA: 17**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18 Mawrth 2013**

## Y BROSES BENODI I SWYDD PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL

**Adroddiad gan Simon Smith, Y Prif Swyddog Tân**

## Diben yr adroddiad

1 Hysbysu'r Aelodau am y trefniadau ar gyfer recriwtio i swydd wag Prif Swyddog Tân Cynorthwyol.

## Cefndir

2 Yn dilyn ymddeoliad y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Colin Hanks ar 31ain Mawrth 2012 gadawyd y swydd yn wag er mwyn cyfrannu tuag at y targed arbedion yn 2012-13. Lefel y cyfraniad oedd oddeutu £110,000.

3 Er mwyn dod â Grŵp Gweithredol y Gwasanaeth yn ôl i'w llawn niferoedd, cynigir ymgymryd â phroses recriwtio yn seiliedig ar egwyddorau hirsefydlog.

## Y broses benodi

4 Yn unol â phob penodiad i'r uwch dîm rheoli, bydd y penodiad hwn yn un gan yr aelodau. Bydd angen galw pwyllgor penodi â 6 aelod, yn cynnwys y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd a Swyddogion yr Awdurdod.

5 Y cynnig yw hysbysebu'r swydd yn y cyfryngau lleol a chenedlaethol, a hynny er mwyn denu ymgeiswyr â'r cymwysterau addas. Dan gyfarwyddyd blaenorol yr Awdurdod Tân ac Achub, caiff y swydd ei hysbysebu gyda'r disgwyliad y bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithredu ar lefel 'Rheolaeth Aur'. Dylai'r ymgeiswyr naill ai fod wedi eu hyfforddi eisoes ar gyfer lefel 'Rheolaeth Aur' neu fod gofyn iddynt gyrraedd y lefel honno o fewn cyfnod rhesymol.

6 Hefyd, bydd gofyn i ddeiliad y swydd fod â sgiliau lefel 3 yn y Gymraeg, neu bydd gofyn iddynt gyrraedd y lefel honno o fewn cyfnod penodol.

7 Bydd y broses ddethol yn golygu cyfweliad ffurfiol gyda'r Prif Swyddog Tân, y Clerc a Thrysorydd yr Awdurdod. Bydd yr ymgeiswyr a fydd yn llwyddiannus yn y cam hwnnw o'r broses yn gwneud cyflwyniad ac yn cael eu cyfweld gan y Pwyllgor Penodi wedi hynny. Y bwriad yw y bydd unrhyw benodiad yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol wedi hynny gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar 17 Mehefin 2013.

## Yr amserlen arfaethedig

8 Hysbysebu cyn diwedd Mawrth 2013.
Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau fydd 20 Ebrill 2013.
Llunio rhestr fer a gwahoddiadau i ddod i gyfweliad cychwynnol ddiwedd Ebrill.
Cyfweliad gyda'r swyddogion yn gynnar ym mis Mai - y dyddiad i'w gadarnhau.
Cyfweliad gyda'r Aelodau yn gynnar ym mis Mai – y dyddiad i'w gadarnhau.
Cadarnhau'r penodiad yn y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub ar 17 Mehefin 2013.

## Argymhellion

9 Bod yr Aelodau'n:

(i) cymeradwyo'r broses arfaethedig a amlinellir uchod;
(ii) cadarnhau aelodaeth y pwyllgor penodi.